# Bwydo Ein Dyfodol - Cyflwr y Genedl

# CYMRU

Gyda diolch i Gareth Thomas CLlLC; Judith Gregory, Cyngor Caerdydd a LACA Cymru; Emma Holmes, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro am eu cyfraniad.

## Faint o lysiau y mae plant a phobl ifanc Cymru yn eu bwyta?

Nifer cyfartalog y dognau o lysiau sy'n cael eu bwyta yn ôl rhanbarth[1] a grŵp oedran ar gyfer 2016-2019 [1]:

| | **Cymru** |
|---|---|
| **Ysgol uwchradd (11-16 oed)** | 1.6 |
| **Ysgol gynradd (5-10 oed)** | 1.5 |

## Mae bwyd ysgol yng Nghymru…

... yn cael ei ddarparu'n bennaf gan wasanaethau arlwyo **22 o awdurdodau lleol** Cymru. Mae nifer fach o ysgolion yn gwneud eu trefniadau arlwyo eu hunain gan ddefnyddio arlwywyr ar gontract neu staff arlwyo a gyflogir yn uniongyrchol gan ysgolion[2].

… yn cael ei ddarparu i **1,480 o ysgolion**[3].

Ar hyn o bryd nid yw Cymru yn monitro'r holl brydau ysgol a ddarperir yn genedlaethol nac yn wir nifer y prydau sy'n cael eu gweini ar unrhyw ddiwrnod penodol.

## Y Ddarpariaeth Prydau Ysgol Am Ddim yng Nghymru

Mae bron i **129,000 o blant oedran ysgol** yng Nghymru - 7 disgybl mewn ystafell ddosbarth o 25 - yn byw islaw'r llinell dlodi[4].

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn cynnig prydau ysgol am ddim i ddisgyblion ar sail meini prawf cymhwysedd[5]. Yn 2020, **roedd tua 20% o'r boblogaeth ysgol yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim**, gan gynnwys 20% o ddisgyblion ysgolion cynradd ac ysgolion canol, 18% o ddisgyblion uwchradd a bron i hanner y disgyblion ag anghenion arbennig (45%). Yn fwyaf diweddar, roedd cymhwysedd ar ei uchaf ym Mlaenau Gwent yn Ne Cymru (25%) ac ar ei isaf yn y sir drws nesaf, sef Sir Fynwy (12%)[6].

Ar ddiwrnod Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2019-20, **roedd y nifer a oedd yn manteisio ar brydau ysgol am ddim tua 77%** o'r rhai sy'n gymwys ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd. Rhwng 2003/04-2019/20, mae'r nifer sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim ar

ddiwrnod y cyfrifiad wedi gostwng ymhlith disgyblion cynradd (84% -77%) ac wedi cynyddu ymysg disgyblion uwchradd (71% -77%)[7].

### Effaith COVID-19: Cynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim

Mae rheolwyr arlwyo ledled Cymru wedi sylwi'n anecdotaidd bod y nifer sy'n talu am ginio yn lleihau a bod y nifer sy'n cael prydau ysgol am ddim yn cynyddu. Rhwng Mawrth 2020 - Mawrth 2021, roedd cynnydd bras o 3,000 o ddisgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng Nghaerdydd yn unig. Erbyn diwedd mis Mai 2021, roedd 14,538 o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng Nghaerdydd, sef 26.4% o ddisgyblion. Mae timau arlwyo yn disgwyl i hyn barhau i gynyddu ar ôl i'r cynllun ffyrlo ddod i ben. (Cyngor Caerdydd, Mehefin 2021)

Mae ymgyrchoedd i ehangu'r ddarpariaeth prydau ysgol am ddim ar y gweill: mae'r Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant (CPAG) yn tynnu sylw at fylchau yn y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim, gan amcangyfrif nad oedd dros hanner yr holl blant sy'n byw mewn tlodi (70,000) yn gymwys, yn bennaf oherwydd y trothwy cymhwysedd cyfredol.[8].

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig **brecwast am ddim** i'r holl ddisgyblion mewn ysgolion cynradd a gynhelir os yw eu hysgol yn dewis ymuno â'r rhaglen. Yn 2020, treialodd Llywodraeth Cymru frecwast am ddim i ddisgyblion Blwyddyn 7 sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim os yw eu hysgol yn darparu rhaglen brecwast am ddim.

Yn ei *Rhaglen Lywodraethu* 5 mlynedd a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021*,* **addawodd Llywodraeth Cymru y bydda'n parhau i ateb y galw am brydau ysgol am ddim sy'n deillio o'r pandemig** ac adolygu'r meini prawf cymhwysedd[9]. Yn y *Gyllideb Derfynol ar gyfer 2020/21: Cyllideb i Adeiladu Cymru Fwy Llewyrchus, Mwy Cyfartal a Gwyrdd*, clustnododd Llywodraeth Cymru gyllid i ehangu'r ddarpariaeth brecwast am ddim i ddisgyblion Blwyddyn 7 sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim[10]. Mae hyn yn galluogi myfyrwyr i ddechrau'r diwrnod gyda phryd o fwyd a gadael digon o arian i ginio. Yn yr un modd â phob brecwast a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, mae'n gynnig y gall ysgolion fanteisio arno.

### Effaith COVID-19: O becynnau cinio i ddarpariaeth dros y gwyliau

Mewn ymateb i atal addysg statudol mewn ysgolion ym mis Mawrth 2020, dechreuodd awdurdodau lleol ddarparu pecynnau cinio llawn i'w casglu mewn ysgolion. Esblygodd hyn yn ystod y 'cyfnod clo' mewn ymateb i newid yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru, yn ogystal â gofynion ac amgylchiadau lleol[11]. I ddechrau, roedd y nifer a fanteisiodd ar y pecynnau cinio a gasglwyd o ysgolion yn fach, ond dros amser roedd y nifer a oedd yn manteisio ar barseli bwyd wedi'u dosbarthu, talebau bwyd ar gyfer archfarchnadoedd neu daliadau uniongyrchol yn uchel.

Ar 21 Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £7 miliwn ar gyfer prydau ysgol am ddim dros wyliau'r Pasg[12]. Mae prydau ysgol am ddim wedi cael eu darparu yn ystod pob gwyliau ysgol ers mis Mawrth 2020, ac ym mis Rhagfyr 2020 estynnwyd yr ymrwymiad hwn drwy wyliau'r Pasg 2022[13].

## Llysiau sy'n cael eu gweini yn ysgolion Cymru

Mae'r *Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013*[14] yn ei gwneud yn ofynnol i ffrwythau a llysiau fod ar gael yn unrhyw le ar safle'r ysgol lle y darperir bwyd yn ystod y diwrnod ysgol. Mae'n pennu'r dognau o ffrwythau a llysiau y dylid eu darparu fel a ganlyn:

- o leiaf **un ddogn** o ffrwythau (gan gynnwys sudd) **neu lysiau** amser brecwast
- o leiaf **un ddogn o lysiau** (ac eithrio tatws) **neu salad** i ginio mewn ysgolion cynradd a **dau ddogn** i ginio mewn ysgolion uwchradd.

Mae *Bwyta'n iach mewn ysgolion a gynhelir: Canllawiau statudol i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu*[15], sy'n darparu cyngor ymarferol i gefnogi ysgolion i gyflawni'r Rheoliadau yn:

- **Nodi y dylai llysiau** fod ar gael gyda **phob pryd ysgol**, ac y dylid eu hyrwyddo drwy sicrhau eu bod yn weladwy mewn mannau lle mae bwyd yn cael ei weini neu ei werthu,
- Argymell gweini **llysiau tymhorol**, ac
- Egluro nad yw tatws a phasta tun mewn saws tomato yn cyfrif tuag at y safon.

Yn ôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, mae polisïau ynghylch bwydlenni a gwasanaeth yn amrywio rhwng awdurdodau lleol a rhwng ysgolion o fewn awdurdodau lleol, lle mae gwasanaeth arlwyo ysgolion yn cael ei drefnu gan ysgolion unigol. Mae rhai ysgolion ac arlwywyr yn mynd y tu hwnt i'r gofynion. Mae polisïau gwasanaethau hefyd yn amrywio fesul ALl ac ysgol, gyda rhai yn ei gwneud yn ofynnol i roi llysiau ar blatiau disgyblion p'un a ydynt yn eu dewis ai peidio a rhai yn caniatáu i ddisgyblion optio allan wrth y cownter gwasanaeth.

Mae pob ALl yn cynnig opsiynau llysieuol a fegan ar gyfer cinio ysgol, gyda'r cyntaf fel arfer yn ddewis ar y fwydlen gyhoeddedig a'r olaf fel arfer yn cael ei ddarparu ar gais.

### Adduned Llysiau Cymru

Cymerodd 170 o ysgolion ledled Cymru ran yn ymgyrch Nerth Llysiau yn 2021, un o'r rhain oedd Ysgol Fabanod Cwmaber yng Nghaerffili sydd yn y fideo hwn ar gyfer yr ymgyrch #BwytewchyLlysiauiwLlethu.

Mae Cyngor Caerdydd yn cynnig dau ddogn o lysiau gyda chinio ysgol. Darperir y llysiau ychwanegol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, a rhoddir dogn ychwanegol am ddim i ddisgyblion pan fyddant yn prynu un dogn.

Mae Bwyd Caerdydd a Rhaglen Ysgolion Iach Caerdydd wedi datblygu pecynnau cymorth Pys Plîs i rieni ac athrawon ar gyfer ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig - gyda 65 yn cymryd rhan hyd yn hyn! Maent hefyd wedi creu adnoddau/fideos yn hyrwyddo bocsys bwyd iach.

Mae 6 ysgol unigol wedi cofrestru ar wefan Dinasoedd Llysiau, gan addo cymryd camau fel cynnwys negeseuon am lysiau a bwyta'n iach mewn gweithgareddau.

### Effaith COVID-19: Bwydlenni llai

Ar ddiwedd y flwyddyn academaidd 2020/21, roedd y gwasanaeth bwyd yn gyfyngedig o hyd, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, er mwyn lleihau nifer y staff sydd yn y gegin a galluogi defnyddio

ardaloedd bwyta amgen. Anogwyd opsiynau cinio yn-eich-llaw. Roedd Rheoliadau Bwyta'n Iach yn dal i fod yn berthnasol, ond ni wnaed gwaith monitro i wirio bwydlenni i sicrhau bod y dognau'n cydymffurfio â'r canllawiau[16].

## Ei gwneud yn haws i ddewis bwyd iach mewn ysgolion

Mae strategaeth newydd Llywodraeth Cymru *Pwysau Iach Cymru Iach (2020)*[17] yn addo newidiadau pellgyrhaeddol i'r amgylchedd bwyd erbyn 2030, gan gynnwys mewn lleoliadau addysgol a chymunedol, a chanolbwyntio mwy ar waith atal ac ymyriadau cynnar. O fewn ei biler 'Lleoliadau Iach', gofynnir i leoliadau gofal plant a lleoliadau addysgol greu amodau lle mae opsiynau iach yn fwy deniadol, fforddiadwy, amlwg a hygyrch. Gofynnir i'r lleoliadau hyn helpu i ddylanwadu ar ymddygiad ar y cam pwysig hwn mewn bywyd a helpu i ymgorffori hynny yn eu bywyd fel oedolyn. Ategir hyn gan ganllawiau'r cwricwlwm ar ymgorffori dysgu am iechyd a lles a mathau o ymddygiad sy'n hybu iechyd[18]. Erbyn 2030, mae'r addewidion polisi yn cynnwys:

- Cyfleoedd i ddysgu am fwyd, gweithgaredd corfforol, maeth a hydradu o fewn y cwricwlwm newydd i alluogi dysgwyr i asesu'n feirniadol effeithiau penderfyniadau a dewisiadau iach.
- Amrywiaeth o raglenni integredig sy'n hyrwyddo dewisiadau bwyta'n iach, gweithgaredd corfforol, hamdden a chwaraeon ysgol ar draws yr ysgol gyfan.

Canfu adolygiad yn 2019 nad yw'r ffordd y mae ffreuturiau wedi cael eu trefnu ac amseroedd bwyd yng Nghymru bob amser yn cefnogi prydau iach a chytbwys[19]: Nid oes gan bob ysgol, yn enwedig ysgolion uwchradd, ddigon o le i ddisgyblion eistedd i fwyta cinio ac mae'r egwyl ginio ei hun yn byrhau[20]. Mae hyn yn cyfrannu at ddisgyblion yn dewis opsiynau bwyd cyflym fel sglodion, rholiau cig moch, darnau o pizza, paninis, baguettes a photiau pasta yn lle ffrwythau a llysiau. Ar yr un pryd, mae'n cyfyngu ar fanteision cymdeithasol ac emosiynol cael pryd o fwyd gyda ffrindiau a'r cyfle i fod yn egnïol.

## 'Bwyd a Hwyl' - y Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf (SHEP)

Mae'r Rhaglen Gwella Gwyliau Ysgol (SHEP), sy'n cael ei hadnabod fel 'Bwyd a Hwyl' gan rieni a disgyblion, yn rhaglen addysg yn yr ysgol sy'n darparu addysg bwyd a maeth, gweithgaredd corfforol, sesiynau cyfoethogi a phrydau iach i blant mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol yn ystod gwyliau haf yr ysgol yng Nghymru.

Datblygwyd a threialwyd SHEP yn 2015 gan Gyngor Caerdydd, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, Chwaraeon Caerdydd, a Bwyd Caerdydd. Yn 2020, cafodd SHEP ei hatal oherwydd cyfyngiadau COVID-19[21] ac ail-ddyrannwyd y cyllid i ddiwallu anghenion cynyddol prydau ysgol am ddim oherwydd COVID-19 a chyflwynwyd Rhaglen Gweithgareddau Gwyliau Haf i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed.[22]. Ers 2021, mae SHEP wedi cael ei hariannu'n gyfan gwbl gan Lywodraeth Cymru[23] sydd wedi ymrwymo i ehangu'r rhaglen i gefnogi'r adferiad o effeithiau ehangach y pandemig, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol[24]. Gweler adroddiad *Bwydo Ein Dyfodol* am ragor o fanylion.

### Effaith COVID-19: Cinio ar amseroedd amrywiol, systemau archebu ymlaen llaw ac amgylcheddau bwyta mwy hamddenol

Mae dychwelyd yn ddiogel i ysgolion drwy gydol 2020-2021 wedi gofyn am nifer o newidiadau i ddarpariaethau arlwyo ysgolion yn ystod 'y cyfnod clo' ac wrth ddychwelyd i'r ysgol[25]:

**Amrywio oriau cinio** i reoli grwpiau llai. Mae rhai bellach yn ymestyn o tua 10:30am - 2pm. Mewn rhai achosion, mae egwyl y bore ac amser cinio wedi'u cyfuno. Mae hyn yn annog ysgolion i feddwl yn wahanol am amser bwyd yn y dyfodol.

Mae **archebu prif brydau ymlaen llaw ar-lein** a'r defnydd o systemau di-arian y cynyddu.

Defnyddir **ardaloedd bwyta amgen**, h.y. ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd y tu allan.

Mewn ardaloedd bwyta amgen, mae disgyblion wedi gwneud sylwadau ar yr amgylchedd mwy hamddenol pan fyddant yn bwyta mewn ystafelloedd dosbarth gan fod llai o sŵn a mwy o ryngweithio cymdeithasol[26].

Nid yw effaith newidiadau o'r fath ar y nifer sy'n manteisio ar brydau ysgol a dewisiadau disgyblion wedi cael eu hadrodd yn gyhoeddus eto ond maent yn debygol o fod o ddiddordeb i lunwyr polisïau a gwasanaethau arlwyo i lywio polisïau a gweithrediadau yn y dyfodol. Adolygir amseroedd egwyl fel rhan o'r *Rhaglen Lywodraethu* 5 mlynedd a bydd yn bwysig ystyried effaith amseroedd egwyl nid yn unig ar fwydlenni ysgol ac ansawdd maethol prydau bwyd ond hefyd yr amgylchedd bwyta ac a yw'n cefnogi disgyblion i fwyta prydau cytbwys gyda'i gilydd.

## Cynaliadwyedd yng ngwasanaeth bwyd ysgol Cymru

Yn 2015, creodd y Cynulliad Cenedlaethol ***Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*** (y Ddeddf)[27], deddfwriaeth sy'n ymgorffori hawliau cenedlaethau'r dyfodol yn y gyfraith ochr yn ochr â hawliau'r cenedlaethau presennol. Mae'r Ddeddf yn gosod rhwymedigaeth uchelgeisiol ar bob corff cyhoeddus i ystyried effaith hirdymor penderfyniadau, i weithio'n well gyda chymunedau, ac i atal problemau parhaus, gan gynnwys anghydraddoldebau iechyd. Mae'n gofyn am weithio tuag at gyflawni saith nod, gan gynnwys 'Cymru Iachach', sy'n anelu at symud yr agenda a'r gwariant tuag at waith atal a lles. Paratowyd y ffordd ar gyfer y strategaeth *Pwysau Iach Cymru Iach* gan y nod 'Cymru Iachach'.

At hynny, mae'r *Rhaglen Lywodraethu* 5-mlynedd yn cynnwys y cynllun i ddatblygu Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru, fel rhan o drawsnewidiad gwyrdd y llywodraeth, gan greu'r posibilrwydd o feithrin cadwyni cyflenwi lleol ar gyfer prydau ysgol. Yn Sir Gaerfyrddin, mae'r cyngor lleol ochr yn ochr â threfnwyr lleol yn gweithio ar brosiect arbrofol i gynyddu nifer y busnesau bwyd lleol neu ranbarthol sy'n cyflenwi ysgolion a'r sector cyhoeddus ehangach. Gweler *Bwydo Ein Dyfodol* am ragor o fanylion.

## Y tu hwnt i Gatiau'r Ysgol

Fel mewn rhannau eraill o'r DU, mae ymchwil yng Nghaerdydd yn 2018 wedi canfod cysylltiad rhwng amddifadedd, lleoliad ysgol a nifer y siopau bwyd poeth, gyda siopau bwyd poeth yn fwy tebygol (78%) o gael eu lleoli ger ysgol mewn ardaloedd lle ceir lefelau uwch o amddifadedd neu ordewdra ymysg plant[28]. Yn 2019, ymrwymodd Strategaeth Fwyd Cyngor Caerdydd i gynhyrchu nodyn cynllunio ynghylch cyfyngiadau cynllunio ar gyfer siopau bwyd cyflym ac ystyried terfynau ar gyfer ardaloedd a pharthau dan waharddiad o amgylch ysgolion[29].

Mae'r strategaeth *Pwysau Iach Cymru Iach* hefyd yn addo newidiadau pellgyrhaeddol dros y degawd hwn yn cynnwys newidiadau i'r amgylchedd bwyd, gan gynnwys lleoliadau addysgol a chymunedol. Ymhlith y cynlluniau mae:

- Gwaharddiad ar hysbysebu, noddi a hyrwyddo bwydydd sy'n cynnwys llawer o fraster dirlawn, siwgr a halen mewn mannau cyhoeddus, gan gynnwys mewn ysgolion ac o'u hamgylch.
- Gosod terfynau ar siopau tecawê bwyd poeth o amgylch ysgolion a chymunedau.
- Cynnydd mewn hyrwyddo bwyd a diod iachach ar draws ystod o leoliadau cymunedol fel canolfannau hamdden, sinemâu a chanolfannau cymunedol.

Mae ymgynghoriadau ar yr Amgylchedd Bwyd fel rhan o strategaeth Pwysau Iach Cymru Iach yn yr arfaeth ac yn debygol o ddechrau yn nhymor yr hydref 2021.

## Yr amgylchedd polisi ehangach ar gyfer darparu bwyd ysgol

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi dull ysgol gyfan o weithredu ar fwyta'n iach sy'n cydnabod nad yw darparu bwyd a diod iach ynddo'i hun yn ddigon i newid ymddygiad bwyta. Dechreuwyd datblygu polisïau ar gyfer safonau maethol prydau ysgol yng Nghymru yn 2006 gyda'r Ymgynghoriad Blas am Oes a arweiniodd at brosiect ymchwil weithredu dwy flynedd a deddfwriaeth ddilynol[30]:

- Mae **Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009**[31] yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ymysg disgyblion mewn ysgolion a gynhelir, annog pobl i fanteisio ar brydau ysgol a phrydau ysgol am ddim a sicrhau bod disgyblion sydd â hawl i gael y prydau hyn yn eu cael a bod eu hunaniaeth yn cael ei ddiogelu.

- Mae'r ***Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009*** yn llywodraethu'r broses sy'n galluogi ysgolion i newid amserau, gan gynnwys amserau cinio. Mae *Rhaglen Lywodraethu* 5 mlynedd Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021 wedi

ymrwymo i adolygu strwythur y diwrnod ysgol ac ymchwilio i'w ddiwygio, gan ganiatáu amser ar gyfer prydau bwyd mwy cytbwys yn hytrach nag opsiynau cyflym i fynd.

- Mae **Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013**[32] yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu brecwast am ddim ar ddiwrnodau ysgol i ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir os bydd yr ysgol yn gofyn am hynny. Mae gan bob disgybl sy'n gofyn am frecwast yr hawl i'w gael.

- Mae ***Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013*** (y Rheoliadau) yn gosod safonau ar gyfer clybiau brecwast a chinio ysgol yn ogystal â gofynion bwyd a diod drwy gydol y diwrnod ysgol. Maent hefyd yn nodi camau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, ac yn gosod bwyta ac yfed yn iach yng nghyd-destun datblygu cynaliadwy. Disgwylir i'r Rheoliadau gael eu hadolygu fel rhan o ymrwymiadau strategaeth Cymru Iach Pwysau Iach y Llywodraeth.

---

[1] Mae'n werth nodi bod maint y samplau ar gyfer plant oedran ysgol uwchradd yng Nghymru a Lloegr yn fach, ac felly dylid ystyried nifer cymedrig y dognau a fwyteir ar gyfer y grŵp oedran hwn yn y rhanbarthau hyn fel amcangyfrif yn unig.

[2] Thomas G. FSM responses to COVID-19 and the recovery of school catering services in Wales. Caerdydd; 2021.

[3] Ystadegau Gwladol. Canlyniadau cyfrifiad ysgolion: ym mis Ionawr 2020 [Y rhyngrwyd]. LLYW.CYMRU. 2020 [dyfynnwyd 2021 Mehefin 1]. Ar gael o: https://llyw.cymru/canlyniadaur-cyfrifiad-ysgolion-ym-mis-ionawr-2020

[4] https://cpag.org.uk/news-blogs/news-listings/wales-over-half-children-poverty-missing-out-free-school-meals

[5] Llywodraeth Cymru. Datblygu meini prawf cymhwysedd newydd ar gyfer prydau ysgol am ddim dan y Credyd Cynhwysol - Crynodeb o Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft (RIA) Y broblem dan sylw a'r rhesymeg dros ymyrryd [Y Rhyngrwyd]. 2018 [dyfynnwyd 2021 Mehefin 22]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-06/asesiad-effaith-rheoleiddiol-ria.pdf

[6] Ystadegau Gwladol. Canlyniadau cyfrifiad ysgolion: ym mis Ionawr 2020 [Y rhyngrwyd]. LLYW.CYMRU. 2020 [dyfynnwyd 2021 Mehefin 1]. Ar gael o: https://llyw.cymru/canlyniadaur-cyfrifiad-ysgolion-ym-mis-ionawr-2020

[7] Thomas G. Take-up of Free School Meals in Wales between 2003/04 and 2019/20. 2021.

[8]Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant. Expanding eligibility for free school meals in Wales [Y rhyngrwyd]. Llundain; 2020 [dyfynnwyd 2021 Mehefin 10]. Ar gael o: https://cpag.org.uk/sites/default/files/files/policypost/CPAG-briefing-for-MPs-and-MSs-on-expanding-FSMs-English.pdf

[9] Llywodraeth Cymru. Llywodraeth Cymru - Rhaglen Lywodraethu [Y rhyngrwyd]. 2021 [dyfynnwyd 2021 Mehefin 16]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-06/rhaglen-lywodraethu-2021-i-2026.pdf

[10] Llywodraeth Cymru. Cyllideb Derfynol 2020-21 Cyllideb i Greu Cymru Fwy Llewyrchus , Mwy Cyfartal a Gwyrdd [Y rhyngrwyd]. 2020 [dyfynnwyd 2021 Mehefin 21]. Ar gael o: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-02/final-budget-2020-2021-note.pdf

[11] Llywodraeth Cymru. Canllawiau diwygiedig ar gyfer ysgolion Cymru: helpu plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim [Y rhyngrwyd]. LLYW.CYMRU. 2020 [dyfynnwyd 2021 Mehefin 17]. Ar gael o: https://llyw.cymru/prydau-ysgol-am-ddim-canllawiau-coronafirws-i-ysgolion

[12] Gregory J. School food in Wales. Yn: Cynhadledd LACA [Y rhyngrwyd]. YouTube; 2021 [dyfynnwyd 2021 Mehefin 14]. Ar gael o: https://www.youtube.com/watch?v=UX2Qvapl2tA

[13] Gregory J. School food in Wales. Yn: Cynhadledd LACA [Y rhyngrwyd]. YouTube; 2021 [dyfynnwyd 2021 Mehefin 14]. Ar gael o: https://www.youtube.com/watch?v=UX2Qvapl2tA

[14] Llywodraeth Cymru. Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013 [Y rhyngrwyd]. Cymru Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines; 2013. Ar gael o:

https://www.legislation.gov.uk/wsi/2013/1984/contents/made/welsh

[15] Llywodraeth Cymru. Bwyta'n iach mewn ysgolion a gynhelir: Canllawiau statudol i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu [Y rhyngrwyd]. Caerdydd; 2014 [dyfynnwyd 2021 Mehefin 2]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/bwyta-n-iach-mewn-ysgolion-a-gynhelir-canllawiau-statudol-i-awdurdodau-lleol-a-chyrff-llywodraethu.pdf

[16] Thomas G. FSM responses to COVID-19 and the recovery of school catering services in Wales. Caerdydd; 2021.

[17] Llywodraeth Cymru. Pwysau iach: Cymru Iach [Y rhyngrwyd]. 2020 [dyfynnwyd 2019 Tachwedd 17]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/pwysau-iach-cymru-iach.pdf

[18] Llywodraeth Cymru. Maes Dysgu ac Arbenigedd: Iechyd a Lles [Y rhyngrwyd]. Hwb: Cwricwlwm i Gymru. 2020 [dyfynnwyd 2021 Mehefin 3]. Ar gael o: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/iechyd-a-lles

[19]Estyn Iach a hapus: Effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant disgyblion [Y rhyngrwyd]. 2019 [dyfynnwyd 2021 Mehefin 6]. Ar gael o: www.estyn.gov.wales

[20] Thomas G. Healthy eating implications of school break times for 11 to 19-year-olds in Wales (heb ei gyhoeddi). Caerdydd;

[21] Gregory J. School food in Wales. Yn: Cynhadledd LACA [Y rhyngrwyd]. YouTube; 2021 [dyfynnwyd 2021 Mehefin 14]. Ar gael o: https://www.youtube.com/watch?v=UX2Qvapl2tA

[22] Gregory J. School food in Wales. Yn: Cynhadledd LACA [Y rhyngrwyd]. YouTube; 2021 [dyfynnwyd 2021 Mehefin 14]. Ar gael o: https://www.youtube.com/watch?v=UX2Qvapl2tA

[23] McConnon L, Morgan K, Godwin J Van, Hawkins J, Bond A, Fletcher A. Food and Fun School Holiday Enrichment Programme 2016: evaluation report -ORCA [Y rhyngrwyd]. 2017 [dyfynnwyd 2020 Chwefror 25]. Ar gael o: http://orca.cf.ac.uk/97619/

[24] Llywodraeth Cymru. Llywodraeth Cymru - Rhaglen Lywodraethu [Y rhyngrwyd]. 2021 [dyfynnwyd 2021 Mehefin 16]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-06/rhaglen-lywodraethu-2021-i-2026.pdf

[25] Thomas G. FSM responses to COVID-19 and the recovery of school catering services in Wales. Caerdydd; 2021.

[26] Gregory J. School food in Wales. Yn: Cynhadledd LACA [Y rhyngrwyd]. YouTube; 2021 [dyfynnwyd 2021 Mehefin 14]. Ar gael o: https://www.youtube.com/watch?v=UX2Qvapl2tA

[27] Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 [Y rhyngrwyd]. 2 Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines; 2015. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted

[28] Toner S, Hannah V, Jefferies G, Williams S, Williams M, Morgan C. Briefing Paper: Obesity, Hot Food Outlets and Planning in Cardiff [Y rhyngrwyd]. Caerdydd; 2018 [dyfynnwyd 2021 Mehefin 17]. Ar gael o: https://whiasu.publichealthnetwork.cymru/files/1415/4755/8372/Obesity_Hot_Food_Outlets_and_Planning_in_Cardiff_Briefing_Paper_Sept_2018.pdf

[29] Cyngor Caerdydd. Strategaeth Fwyd Caerdydd: Strategaeth a chynllun gweithredu ar gyfer bwyd cynaliadwy yng Nghaerdydd [Y rhyngrwyd]. 2019 [dyfynnwyd 2020 Chwefror 1]. Ar gael o: https://cardiff.moderngov.co.uk/documents/s35885/Cabinet 21 November 2019 Food Strategy App 1.pdf?LLL=0

[30] GIG Cymru. Cynllun Gweithredu Blas am Oes wedi'i Lansio [Y rhyngrwyd]. Iechyd yng Nghymru. GIG Cymru; 2007 [dyfynnwyd 2021 Mehefin 7]. Ar gael o: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/newyddion/15416/

[31] Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 nawm 3 [Y rhyngrwyd]. Cronfa Ddata Cyfraith Statud; 2009. Ar gael o: https://www.legislation.gov.uk/mwa/2009/3/contents/enacted/welsh

[323232] Llywodraeth Cymru. Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 [Y rhyngrwyd]. Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines; 2013. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/anaw/2013/1/contents/enacted/welsh